**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**
**22 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 22ain Mehefin, 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Andy Dunbobbin, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Tudor Jones, David Mackie, a Martin White

**AELODAU CYFETHOLEDIG** David Hytch a Rebecca Stark

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Ian Smith a David Williams. Bernard Stuart.

**DIRPRWYON:** Cynghorydd David Cox (ar ran Paul Cunningham) ac Ian Dunbar (ar ran Geoff Collett)

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet Addysg, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog y Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Llafur. Gan y penodwyd y Cynghorydd David Healey i'r rôl hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

Diolchodd y Cynghorydd David Healey i'r Cynghorydd Ian Roberts am ei waith fel Cadeirydd blaenorol y Pwyllgor.

Atgoffwyd yr Aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf y Pwyllgor y byddai Ian Budd, Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn ei fynychu cyn dechrau mewn swydd newydd gyda Chyngor Sir Powys. Talodd y Cynghorydd Ian Roberts deyrnged i'r Prif Swyddog am ei waith caled a'i gyfraniad gwerthfawr i addysg plant yn Sir y Fflint. Mynegodd y Pwyllgor ei werthfawrogiad a'i ddymuniadau gorau i Mr Budd i'r dyfodol.

Hefyd croesawodd y Pwyllgor Claire Homard yn ei rôl fel Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid).

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cynghorydd David Healey fel Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin y Cynghorydd David Hytch fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn.

Ar ôl cynnal pleidlais penodwyd David Hytch fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi David Hytch fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

3. **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

4. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2017.

Cywirdeb

Cofnod 60, tudalen 6, dywedodd David Hytch y dylai'r gair 'presenoldeb' yn y trydydd paragraff fod yn 'absenoldeb'.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 2.10 pm)

..................................................

**Cadeirydd**